

Gweithdy Llysgenhadon Gwych

Rydyn ni wedi penderfynu cynnal ein digwyddiadau blynyddol Llysgenhadon ar-lein am y tro cyntaf, oherwydd pandemig y coronafeirws. Mae Sally, y Comisiynydd, wedi recordio fideo ar gyfer y gweithdy y byddem yn annog i chi arwain gyda'ch dosbarth neu grŵp o ddisgyblion yn eich ysgol. Mae'r nodiadau yn y ddogfen hon yn darparu mwy o wybodaeth, cyfarwyddiadau a linciau i adnoddau arall i'ch cefnogi.

Ar **14eg Hydref**, byddwn ni'n cynnal gweminar fyw gyda Sally ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Byddwch chi a'ch disgyblion yn gallu rhannu beth wnaethoch chi yn eich gweithdy gyda Sally a gydag ysgolion eraill, a hefyd anfon cwestiynau iddi ateb. Er byddwn yn gweld eisiau'r fformat arferol ar gyfer ein digwyddiadau'r flwyddyn yma, rydyn yn edrych ymlaen at gysylltu a chwrdd â'n Llysgenhadon Gwych, tra'n sicrhau eu bod nhw'n ddiogel.

Fedrwch chi addasu'r gweithdy a defnyddio'r fideo yn y ffordd sy'n gorau ar gyfer chi a'ch disgyblion. Bydd Sally yn nodi ble fedrwch chi roi saib ar y fideo er mwyn i'r disgyblion cwblhau eu tasgau.

Amcanion:

- Dysgu am hawliau plant
- Deall rôl y Comisiynydd
- I ddefnyddio canfyddiadau ein harolwg er mwyn trafod teimladau a chreu mecanweithiau ar gyfer newid/cefnogaeth yn eu hysgolion/lleoliadau

Dyma'r linc i fideo Sally, sy'n cynorthwyo'r wers: [GWEITHDY LLYSGENHADON GWYCH \(gyda Sally\)](#)

Deilliannau Dysgu	Gweithgaredd	Amser	Nodiadau
Croeso ac esboniad am newidiadau i'r cynllun Llysgenhadon	Cyflwynwch y wers trwy esbonio bydd y disgyblion yn canolbwyntio ar hawliau plant yn ystod y sesiwn. Esboniwch bydd y wers yn cynnwys fideo a gweithgareddau.	5 munud	<ul style="list-style-type: none"> • Gall athrawon stopio'r fideo mewn sawl man yn ystod y fideo er mwyn alluogi i ddisgyblion cwblhau'r tasgau • Fedrwch chi rannu beth wnaethoch chi yn ystod y gweminar ym mis Hydref

	CHWARAEWCH y fideo Cyflwyniad gan Sally ac esboniad am sut bydd y digwyddiadau yn gweithio eleni.		
Dysgu am Sally/swydd y Comisiynydd Plant	Bydd Sally yn cyflwyno 5 gwrthrych gwahanol sy'n cynrychioli elfennau gwahanol o'i swydd Rhowch saib ar y fideo a gofynnwch i'r disgyblion pa swyddogaeth mae'r gwrthrych yn cynrychioli Ar ôl gwasgu 'Chwarae', bydd Sally yn esbonio'r ateb cywir STOPIWCH y fideo i adolygu/grynhoi swydd Sally	10 munud	<ul style="list-style-type: none"> • Gall ddisgyblion gweithio yn unigol neu mewn paru i ddyfalu'r atebion cywir. Gallwch chi ofyn iddyn nhw godi eu dwylo neu ddefnyddio byrddau gwyn i rannu eu hatebion. • Dyma ddisgrifiad byw o'r atebion cywir: <ul style="list-style-type: none"> ○ CLUST — I wrando ar blant ○ MEGAFFÔN — I weiddi am y pethau sy'n bwysig i blant ○ FFÔN — I roi cyngor i blant trwy'r gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, os mae plentyn neu rywun sy'n gofalu amdanynt yn beco nad ydynt yn derbyn ei hawliau ○ POSTER - er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau plant ○ WIG/GAVEL — I sicrhau bod y gyfraith yn diogelu hawliau plant
Dysgu am y Confensiwn Cenedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP)	CHWARAEWCH y fideo Bydd Sally yn dweud y dasg nesaf yw i wneud gweithgaredd yn y dosbarth ar hawliau plant. Mae syniadau isod, ond croeso i chi eu haddasu. Cyn dechrau, esboniwch i'r dosbarth taw yn gryno, "hawliau plant yw'r pethau sy'n helpu plant i dyfu'n hapus, yn iach ac yn ddiogel" .	15 munud	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer Opsiwn 1, gallwch chi ofyn i blant ysgrifennu neu dynnu llun o'r pethau sydd angen ar blant i fod yn hapus, iachus, a diogel. • Ar gyfer Opsiwn 2, gallwch chi ddefnyddio'r pecyn symbolau er mwyn rhoi cerdyn i bob grŵp, neu erthygl o'r poster. Rydyn yn awgrymu i chi edrych ar yr erthyglau o flaen llaw a dewis detholiad ohonynt, e.e. Erthyglau 1 / 2 / 6 / 7 / 12 / 13 / 15 / 16 / 17 / 19 / 24 / 27 / 28 / 29 / 31

	<p>Opsiwn 1</p> <p>Mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r plant trafod y pethau sydd angen ar blant i fod yn hapus, iach a ddiogel?</p> <p>Opsiwn 2</p> <p>Mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r plant ddewis hawl i actio/berfformio. Bydd angen i weddill y dosbarth dyfalu pa hawl sy'n cael ei pherfformio.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn anfon copiâu caled o'n posteri a'n pecyn symbolau i'r ysgolion sydd wedi cofrestru fel Llysgenhadon. Maen nhw ar gael i lawr lwytho o'n gwefan hefyd.
<p>Cyflwyno canfyddiadau'r arolwg 'Coronafeirws a Fi'</p> <p>Deall bod hyn yn esiampl o Erthygl 12 — yr hawl i ddweud eich dweud ac i gael eich cymryd o ddifri</p>	<p>Bydd Sally yn siarad am yr arolwg 'Coronafeirws a Fi' a chafodd ei lansio ym mis Mai 2020</p> <p>Bydd animeiddiad yn dangos rhai o'r prif ganfyddiadau</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr arolwg 'Coronafeirws a Fi' yn Dasg Arbennig ar gyfer ein hysgolion Llysgenhadon yn ystod tymor yr haf 2020. • Cymerodd dros 23,000 o blant a phobl ifanc rhan yn yr arolwg. • Ar gyfer mwy o wybodaeth, gallech chi ddarllen crynodeb o'r adroddiad yma. • Mae hyn yn cysylltu ag Erthygl 12 — yr hawl i rywun wrando arnat ac i gael dy gymryd o ddifri — efallai hoffwch chi dynnu sylw at yr hawl trwy ei arddangos o flaen y dosbarth gan ddefnyddio ein pecyn symbolau.

<p>Trafod a meddwl am brif ganfyddiadau'r arolwg</p>	<p>Rhowch brif ganfyddiad o'r arolwg i bob grŵp neu ar bob bwrdd.</p> <p>Gofynnwch y grŵp i drafod y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ydych chi'n credu bod hyn yn gywir o hyd? • Sut mae pethau yn wahanol nawr (wedī'r arolwg)? • Sut ydy hyn yn effeithio ar hawliau plant? <p>Ar ôl y drafodaeth, gofynnwch i bob grŵp rhannu eu sylwadau gyda gweddill y dosbarth/grŵp.</p>	<p>10 munud</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r prif ganfyddiadau wedi'u hatodi ar ddiwedd y ddogfen hon. • Pwrpas y drafodaeth yw: <ul style="list-style-type: none"> ○ I drafod a rhannu rhai o'r prif ganfyddiadau gyda'n hysgolion Llysgenhadon ○ Galluogi plant i feddwl am y pandemig a sut mae hi wedi effeithio ar hawliau plant ○ Galluogi plant i ystyried os ydy pethau wedi newid ers yr arolwg. • Ar gyfer plant iau, gallwch chi addasu'r cwestiwn er mwyn gofyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Wyt ti'n credu bod plant dal yn teimlo fel hyn?
<p>Meddwl am y trafodaethau grŵp</p> <p>Ystyried beth sydd angen gwella ar gyfer plant yng Nghymru</p> <p>Crynhoi'r trafodaethau mewn i ddau bwynt i rannu gyda Sally yn y gweminar ym mis Hydref</p>	<p>Fel dosbarth neu grŵp mawr, meddyliwch am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Un peth positif sydd wedi digwydd yn sgil y pandemig • Dau beth sydd angen newid o hyd i wella bywydau plant yng Nghymru. <p>Nodwch syniadau'r dosbarth er mwyn rhannu gyda Sally yng ngweminar mis Hydref.</p>	<p>10 munud</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pwrpas y dasg hon yw er mwyn i Sally glywed am unrhyw newidiadau positif sydd wedi digwydd o gwmpas y wlad, ond er mwyn gwybod beth sydd angen gwella a ble dylai hi ffocysu ei gwaith. • Os mae'r grŵp yn ei chael hi'n anodd penderfynu, gallwch chi addasu'r dasg er mwyn iddyn nhw ddewis dau peth da sydd wedi dod allan o'r pandemig ac un peth sydd angen newid. Mae hyn yn dilyn y fformat 'dwy seren ac un gorchymyn' (<i>2 stars and a wish</i>). • Os oes gan eich grŵp llawer o syniadau, gallech chi gynnal pleidlais er mwyn ddewis y pethau pwysicaf. • Os nad ydych yn gallu ymuno'r gweminar ym mis Hydref, rhannwch eich adborth gyda ni ar Twitter (@childcomwales) neu ar post@complantcymru.org.uk.

<p>Diwedd y sesiwn</p> <p>Rhannu manylion ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor</p>	<p>Adolygwch rai o brif bwyntiau'r gweithdy trwy ofyn y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru? • Gall unrhyw un enwi hawl sydd gan bobl ifanc? <p>Gorffennwch y wers trwy atgoffa'r plant am 'ffôn' Sally, a'r ffaith bod ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ar gael i unrhyw un sy'n poeni dydyn nhw ddim yn derbyn eu hawliau.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cofiwch i ymuno â Sally yn ei gweminar ym mis Hydref er mwyn rhannu syniadau'r plant.
---	--	--	---

Prif Ganfyddiadau:

1. Dywedodd plant eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel rhan fwyaf o'r amser.
2. Dywedodd dros 50% eu bod nhw'n cael mwy o amser i ymlacio ac i chwarae.
3. Dywedodd llawer o blant eu bod nhw wedi mwynhau treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd.
4. Roedd gweld eisiau ffrindiau a grwpiau yn cael yr effaith mwyaf ar addysg blant.
5. Roedd rhai yn gweld eisiau'r cyfle i weithio gyda'u ffrindiau dosbarth a derbyn help gan eu hathrawon.
6. Roedd y mwyafrif o blant yn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Chymraeg yn cael y cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg.
7. Dywedodd y mwyafrif o blant roeddent yn gwybod ble i fynd, os oedd angen cymorth i deimlo'n hapus ac yn iach arnyn nhw.
8. Roedd llawer o blant ym Mlwyddyn 6 yn poeni am beidio cael y cyfle i ffarwelio a'u hysgol gynradd cyn mynd i Flwyddyn 7.